| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **1 Mai 2025** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Diwygio y Cyfansoddiad** |
| **PWRPAS** | **Adrodd ar addasiadau dirprwyedig i'r Cyfansoddiad** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Nia Jeffreys – Arweinydd y Cyngor** |
| **AWDUR** | **Iwan Evans – Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

1. Mae Adran 5 o'r Cyfansoddiad yn darparu y gall yr Arweinydd addasu y Cynllun Dirprwyo sydd yn Adan 13 o'r Cyfansoddiad yn ddarostyngedig i ddilyn proses rybudd.

> **"5.9.3 Cynllun Dirprwyo a Swyddogaethau Gweithredol y Cyngor**
>
> (a) Caiff yr Arweinydd (ion) ddiwygio'r cynllun dirprwyo mewn perthynas â Swyddogaethau Gweithredol ar unrhyw adeg. Wrth wneud hynny, bydd yr Arweinydd yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r unigolyn, y corff neu'r pwyllgor dan sylw. Mae'n rhaid i'r rhybudd amlinellu maint y diwygiad i'r cynllun dirprwyo, a pha un a yw'n golygu tynnu dirprwyaeth yn ôl oddi ar unrhyw unigolyn, corff neu bwyllgor. Bydd y Swyddog Monitro yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor yn amlinellu'r newidiadau a wnaed gan yr Arweinydd.

2. Mae gwaith diweddaru wedi ei wneud ar y Deddfwriaethau sydd yn cael ei rhestru o fewn y Cyfansoddiad ynglŷn a Gwarchod y Cyhoedd er ymgorffori deddfwriaeth diweddaraf. Mae'r Cynllun Dirprwyo addasedig i'w weld yn Atodiad 1, Cwblhawyd y gwaith gan y Rheolwr Cyfreithiol mewn ymgynghoriad agos gyda'r Adran Amgylchedd a cyhoeddwyd y daflen penderfyniad ar yr 2il o Ebrill 2025.

   Front Page Welsh 01.04.25

   **Argymhelliad**

   **Fod y Cyngor yn derbyn yr adroddiad ar y newidiadau dirprwyedig yn Atodiad 1.**